Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

9.30am, Ddydd Mawrth 15 Rhagfyr 2020
Cyfarfod Microsoft Teams

COFNODION

Presennol	
Enw	**Sefydliad**
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Yr Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Y Cynghorydd Jan Curtice	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Christine Harley	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Menna Davies	Adran Gwaith a Phensiynau
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Hefyd yn bresennol	
Enw	**Corff/mudiad**
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Lisa Lewis	Cyngor Sir Caerfyrddin
David Davies	Cynghorau Llannon/Llanedi/Cwmaman
Y Cynghorydd Dot Jones	Cyngor Cymuned Llannon
Ruth Taylor-Davies	Cyngor Cymuned Llanedi
Sue James	Cyngor Cymuned Llannon
Rob Venus	Cyngor Tref Cwmaman

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) bawb i'r cyfarfod rhithwir a chyflwynwyd y gwesteion.

Ymddiheuriadau	
Enw	**Corff/mudiad**
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin

Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Beth Cossins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Uwch-arolygydd Ifan Charles	Heddlu Dyfed-Powys
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Rhian Dawson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

2. Adroddiadau Blynyddol Cyngor Tref/Cymuned

Cyngor Tref Cwmaman

Pwysleisiodd Rob Venus, Swyddog Datblygu Cymunedol, pa mor bwysig oedd yr angen am ddata lleol cyfredol a sut y gellid defnyddio eu hasedau i gyflawni amcanion y BGC wrth i bartneriaid y BGC eu cefnogi i ddatblygu prosiectau a'u gweithredu. Amlinellodd ddull cydweithredol yn cynnwys rhannu syniadau, rhannu gwybodaeth a nodi atebion. Gofynnwyd iddo baratoi cynnig ffurfiol ar y dull hwn er mwyn i'r BGC ei ystyried yn y dyfodol.

Mynegodd Huwel Manley ac Anna Bird ddiddordeb mewn cynnal trafodaethau pellach gyda'r Swyddogion Datblygu Cymunedol.

Cyngor Cymuned Llanedi

Rhoddodd Ruth Taylor-Davies, Swyddog Datblygu Cymunedol, drosolwg o'r gwaith a wnaed a'r heriau a wynebwyd.

Trafodwyd y mater o wella'r cydweithredu rhwng y BGC a'r Cynghorau Tref a Chymuned a chodi ymwybyddiaeth y BGC a'i waith mewn cymunedau a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd a thîm cynorthwyo y BGC yn rhoi rhagor o ystyriaeth i hyn.

Ymhlith yr heriau y rhoddwyd sylw iddynt oedd trafnidiaeth a gwasanaethau mewn siroedd cyfagos fel iechyd ac addysg.

Bydd Anna Bird yn cysylltu â'r Swyddogion Datblygu Cymunedol i drafod y tîm datblygu allgymorth cymunedol a mynediad at ragnodi cymdeithasol. Cytunodd Maria Battle fod cyfathrebu yn her barhaus a chadarnhaodd y bydd pob meddygfa yn darparu rhagnodi cymdeithasol yn y dyfodol.

Cyngor Cymuned Llannon

Rhoddodd Sue James, Swyddog Datblygu Cymunedol, drosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ymhlith y gwaith oedd sefydlu banc bwyd a datblygu dull cyfannol i gefnogi teuluoedd.

Gwnaed cais i rannu adnoddau/arbenigedd, yn enwedig o ran sefydlu siambr fasnach, awgrymiadau ar gyfer cyfleoedd cyllido a rheoli prosiectau.

Cynhaliwyd trafodaeth ar hyfforddiant cyflogadwyedd a diffyg trafnidiaeth gyhoeddus o ardaloedd gwledig.

Crynhodd David Davies mai'r materion allweddol a amlygwyd gan y tri chyngor tref a chymuned oedd rhannu gwybodaeth ac awgrymodd y dylid ystyried hyn yn rheolaidd, rhagnodi cymdeithasol a seilwaith gwyrdd. Cytunwyd y dylid rhoi cyflwyniad ar y Bartneriaeth Natur mewn cyfarfod yn y dyfodol.
Diolchodd Barry Liles i'r Cynghorau Tref a Chymuned am eu cyfraniad a dywedodd y byddai'n mynychu cyfarfod gyda nhw yn y dyfodol.

Y CAM GWEITHREDU	
Paratoi cynnig ffurfiol ar ddull cydweithredol newydd i'w ystyried gan y BGC mewn cyfarfod yn y dyfodol	Rob Venus
Trafod cyfleoedd ynglŷn â seilwaith gwyrdd a nodi SPOC ar gyfer y Swyddogion Datblygu Cymunedol (SDC).	Rob Venus a Huwel Manley
Cysylltu â'r SDC i drafod tîm datblygu allgymorth cymunedol ac i gael mynediad at ragnodi cymdeithasol	Anna Bird
Bydd Barry Liles a Thîm Cynorthwyo BGC yn cwrdd yn gynnar yn y flwyddyn newydd i ystyried y trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r cynghorau tref a chymuned	Barry Liles a Thîm Cynorthwyo BGC
Mynychu cyfarfod Grŵp Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.	Barry Liles
Ystyried a oes modd darparu cefnogaeth y mae Cyngor Cymuned Llannon yn gofyn amdani - sefydlu'r Siambr Fasnach, awgrymiadau ar gyfer cyfleoedd cyllido a chymorth rheoli prosiect	Pawb
Gofyn i bawb ddarparu manylion am y banc bwyd i Menna Davies yn enwedig oriau agor dros y Nadolig	Sue James
Anfon manylion cyswllt Rheolwyr y Ganolfan Byd Gwaith at Dîm Cynorthwyo BGC i'w rhannu gyda'r cynghorau tref a chymuned	Menna Davies
Ystyried gwybodaeth i'w rhannu â chynghorau tref a chymuned yn rheolaidd	Barry Liles a Thîm Cynorthwyo BGC
Rhoi cyflwyniad ar y Bartneriaeth Natur mewn cyfarfod yn y dyfodol	Tîm Cynorthwyo BGC

3. Cofnodion a Materion yn Codi:

29 Medi 2020

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

Y CAM GWEITHREDU	
Rhoi diweddariadau i Dîm Cynorthwyo BGC ar unrhyw gamau sydd heb eu cwblhau o gyfarfodydd blaenorol	Pawb

4. Cynllun Llesiant Cyngor Sir Gâr - Y Wybodaeth Ddiweddaraf a blaenoriaethau'r dyfodol

Cronfa Her yr Economi Sylfaenol - Prosiect Caffael Bwyd y Sector Cyhoeddus

Bydd CLES yn gorffen eu gwaith ac yna cyflwynir adroddiad yn cynnwys argymhellion. Penodwyd cynghorwyr arbenigol ar fwyd a byddant yn edrych ar sut i ddatblygu elfen y gadwyn cyflenwi bwyd. Cytunwyd y dylai'r eitem hon fod yn eitem sefydlog ar yr agenda.

Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r ddau brosiect a drafodwyd o'r blaen - seilwaith gwyrdd a phlannu coed - wedi'u cymeradwyo ac maent i'w cyflawni cyn diwedd mis Mawrth. Bydd cyllid hefyd ar gael yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Blaenoriaethau'r Dyfodol

Trafodwyd y rhain mewn cyfarfodydd diweddar a chytunwyd y byddai'r blaenoriaethau yn dal yr un fath, ond bydd y grwpiau cyflawni yn canolbwyntio ar y materion allweddol a nodwyd.
Byddai cais am arian gan Lywodraeth Cymru yn ategu gwaith y Grŵp Cysylltiadau Cryf i feithrin cydweithrediad agosach rhwng partneriaid y BGC wrth ddefnyddio gwirfoddolwyr.
Awgrymwyd y dylai'r BGC ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd yn y dyfodol.
Gan fod Jan Curtice wedi gadael y cyfarfod am 11am, doedd dim cworwm gan y bwrdd ar gyfer gweddill y cyfarfod. Byddai'n rhaid cadarnhau unrhyw benderfyniadau ar ôl y cyfarfod.

Y CAM GWEITHREDU	
Bydd Cronfa Her yr Economi Sylfaenol yn eitem sefydlog ar yr agenda	Tîm Cynorthwyo BGC
Bydd grwpiau ffocws yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau at y dyfodol y cytunwyd arnynt.	Grwpiau Gweithredu
Bydd y BGC yn rhoi ystyriaeth o ran y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd newydd yn y dyfodol.	Tîm Cynorthwyo BGC

5. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Rhoddwyd cyflwyniad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol sy'n ymwneud â'r Gronfa Drawsnewid, y gwerthusiad annibynnol a wnaed a'r cyflawniadau.
Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y modd o gyfathrebu'r ddarpariaeth yn Sir Gaerfyrddin.

Y CAM GWEITHREDU	
Bydd sleidiau cyflwyniad y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cael eu rhannu	Tîm Cynorthwyo BGC
Cysylltu ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth ac ehangu ymgysylltu gwasanaethau	Rob Venus a Martyn Palfreman

6. Rhaglen Cymunedau Arloesol yr Economi Gylchol

Gall y BGC chwarae rhan allweddol wrth ymgorffori'r dull hwn a gwnaed cais i'r aelodau rannu'r wybodaeth hon â swyddogion allweddol neu ag adrannau datblygu dysgu. Disgwylir mynegiadau o ddiddordeb ganol mis Ionawr. Bydd pedair carfan o 30 o bobl yn cael eu dewis ac yn dechrau ym mis Mawrth. Rhaglen ddysgu 10 mis yn y gwaith yw hon sy'n cymryd oddeutu 1 diwrnod y mis. Cytunwyd y byddai carfan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr yn fuddiol. Gellir darparu gwybodaeth bellach os bydd rheolwr y rhaglen eisiau rhagor.

Y CAM GWEITHREDU	
Aelodau i rannu gwybodaeth am Raglen Cymunedau Arloesol yr Economi Gylchol gyda swyddogion perthnasol a bydd y mynegiadau o ddiddordeb yn cael eu cyflwyno cyn canol mis Ionawr	Pawb

7. Unrhyw Fater Arall

Nid chodwyd unrhyw fater arall.